**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 9 Mawrth 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | V M Evans |
| S J Gallagher | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | B J Rowlands | L G Thomas |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Richard Jenkins | Licensing Officer |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing

---

**88 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C Anderson – Personol a Rhagfarnol – Cofnod rhif 92 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Deddf Cydraddoldeb 2010, Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn, Cais am Dystysgrif Eithrio - CW - Rwy'n adnabod CW. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn ystyried y mater.

Y Cynghorydd C Anderson – Personol a Rhagfarnol – Cofnod rhif 95 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Trwydded Yrru i Gerbyd Hacni a Hurio Preifat - PAD - Rwy'n adnabod PAD. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn ystyried y mater.

**89 Cofnodion:**

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi’r cofnodion a restrir isod fel cofnodion cywir:

1) 18 Ionawr 2018; a
2) 9 Chwefror 2018.

**90 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**91 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - ZK.**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais ZK am Dystysgrif Eithrio.

Esboniodd ZK yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais ZK am Dystysgrif Eithrio **am flwyddyn.**

**92 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - CW.**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais cais CW am Dystysgrif Eithrio.

Esboniodd CW yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais CW am Dystysgrif Eithrio **yn ddiderfyn**.

**93 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Rhif Cofrestru - LAJ.**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais LAJ am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd LAJ, gyda chwmni a chynrychiolaeth gan Mr W, yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) **cymeradwyo** cais LAJ am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat; a
2) rhoi llythyr rhybudd i LAG o ran y safonau sy'n ofynnol i Yrwyr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

## 94 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Gyrrwr Bathodyn Deuol - DLD.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â DLD.

Esboniodd DLD yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd** na fyddai camau gweithredu pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â DLD.

## 95 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - PAD.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu, ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â PAD.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd RPR yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

Penderfynwyd y bydd PAD yn derbyn llythyr rhybudd o ran ymddygiad yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.55 am

**Cadeirydd**